Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Beth yw hawliau plant?

## Ydych chi wedi clywed am Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn?

Rhestr o hawliau yw'r Confensiwn sydd gan bob plentyn 0-18 oed.

Mae hawliau yn sicrhau ein bod ni i gyd yn cael ein trin yn deg, yn gallu cyflawni ein potensial ac yn gallu codi ein llais. Mae gan blant hawliau ychwanegol i oedolion, am fod angen amddiffyniad ychwanegol arnynt a'u bod yn ddibynnol iawn ar yr oedolion o'u cwmpas. Er mwyn sicrhau hawliau plant, dylai'r oedolion hyn ystyried yr hyn sydd orau i fabanod a phlant ifanc yn eu bywydau o ddydd i ddydd, i wneud yn siŵr eu bod yn cael mwynhau eu hawliau a bod yn iach, yn hapus ac yn ddiogel.

Yn y pen draw, mae'n ymwneud â'r hyn sydd ei angen ar bob plentyn i dyfu i fod **yn Hapus, yn Iach ac yn Ddiogel.**

Nid rhywbeth i osod gofynion ychwanegol arnoch chi yw Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. Nid yw chwaith yn golygu y gall plant wneud beth bynnag maen nhw ei eisiau pryd bynnag maen nhw eisiau! Yn hytrach, mae'n rhoi'r ddealltwriaeth a'r gefnogaeth ichi i sicrhau bod plant yn cael y dechrau gorau mewn bywyd.

## Cefnogi fy Hawliau - Gwyliwch fi'n mynd, dyma fi'n dod! (3-5 mlwydd oed)

Dechreuwch ddefnyddio rhai o'r geiriau mwy a siarad am fy hawliau gyda mi

Cefnogwch fi i fynegi, creu a rhannu fy syniadau fy hun

Gofynnwch imi, ond ceisiwch feddwl hefyd sut dw i'n gweld y byd



Gadewch imi ddilyn fy niddordebau fy hun a chymryd yr awenau

Edrychwch ar yr holl ffyrdd dw i'n cyfathrebu â chi – nid dim ond fy ngeiriau – mae gen i lawer i'w ddweud wrthych chi

Clywch yr hyn dw i'n ei ddweud a gweithredwch arno

Rhowch lawer o gyfleoedd imi ddysgu a rhoi cynnig ar bethau newydd

Dw i angen ichi fy helpu pan fydd pethau'n anodd

OGL © Hawlfraint y Goron 2024, Llywodraeth Cymru, WG48481